| PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cadeirydd ac Is-gadeirydd** | **Cynllun Corfforaethol a Blaenoriaethau** | **Cylch Gorchwyl** | **Aelod(au) o'r Cabinet** | **Swyddog(ion) Arweiniol** |
| **Cadeirydd**: Y Cyng J Edwards<br><br>**Is-Gadeirydd**: Y Cyng B Stephens<br><br>Dyma restr o aelodau'r Pwyllgor Craffu yma. | Fel y Pwyllgor Craffu cyffredinol:-<br><br>Dwyn yr Adain Weithredol i gyfrif am bob un o'r pedwar amcan llesiant yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor, sef:<br><br>*1. **POBL A CHYMUNEDAU** – Cefnogi a grymuso trigolion a chymunedau RhCT i fyw bywydau diogel, iach a chyflawn.*<br>*2. **GWAITH A BUSNES** – helpu i gryfhau a thyfu economi Rhondda Cynon Taf.*<br>*3. **BYD NATUR A'R AMGYLCHEDD** – RhCT gwyrdd a glân sy'n gwella ac yn gwarchod yr amgylchedd a byd natur.*<br>*4. **DIWYLLIANT, TREFTADAETH A'R GYMRAEG** – Cydnabod a dathlu gorffennol, presennol a dyfodol RhCT.* | • Adolygu a datblygu polisïau ar gyfer holl feysydd y Cyngor, gan gynnwys Cynlluniau a Strategaethau Corfforaethol<br>• Adroddiadau Cyflawniad Chwarterol / Adroddiadau am Eithriadau (cyflawniad ariannol a gweithredol)<br>• Rheoli'r Trysorlys<br>• Proses ymgynghori ar y gyllideb refeniw<br>• Gofynion statudol o ran adrodd ar gyflawniad<br>• Gosod targedau ar gyfer mesurau cyflawniad<br>• Monitro gweithredu penderfyniadau cynllunio gwasanaeth tymor canolig sydd wedi'u cymeradwyo gan yr Adain Weithredol<br>• Ystyried gweithredu prosiectau sy'n effeithio ar y Cyngor cyfan, gan gynnwys:<br>➢ Y Fargen Ddinesig<br>➢ Swyddfa Archwilio Cymru<br>➢ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br><br>• Sicrhau bod gwaith pob un o'r Pwyllgorau Craffu thematig yn cael ei gyflawni'n effeithiol a'i fod yn arwain at ganlyniadau pendant, h.y. 'craffu ar y craffwr'<br>• Herio gwaith y Pwyllgorau Craffu<br>• Delio â phob achos sy'n cael ei 'alw i mewn' (o dan Reolau Gweithdrefnau Trosolwg a Chraffu y Cyngor).<br>• Cydlynu gweithredu'r argymhellion sydd wedi'u nodi yn nogfen Swyddfa Archwilio Cymru - 'Craffu Da? Cwestiwn Da!'<br>• Monitro argymhellion sydd wedi'u gwneud gan y Pwyllgor Craffu yn rheolaidd a sicrhau eu bod | • Arweinydd y Cyngor<br><br>• Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor<br><br>• Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfranogiad Pobl Ifainc a Newid yn yr Hinsawdd<br><br>• (Unrhyw Aelod arall o'r Cabinet lle y bo'n briodol) | • Prif Weithredwr<br><br>• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu<br><br>• Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol<br><br>• Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen<br><br>• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella<br>• Pennaeth Materion Cyllid, Addysg ac Adroddiadau Ariannol<br>• (Unrhyw Swyddog Arweiniol yn ôl yr angen) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2024–2030 | wedi'u gweithredu'n briodol.<br><br>Bwrw ymlaen â'r Cynllun Gweithredu parhaus ar gyfer Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Addas ar gyfer y Dyfodol' a'r Papur Trafod 'Chwe thema i helpu i wneud gwaith craffu yn "Addas at y Dyfodol"'<br>Addas ar gyfer y Dyfodol<br>Chwe Thema i helpu i wneud gwaith craffu yn 'Addas at y Dyfodol'<br>• Llunio a chyhoeddi Adroddiad Craffu Blynyddol | | |